**LC1229**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2005 ("Rheoliadau 2005") drwy gywiro gwallau a hepgoriadau a gwallau teipograffyddol a nodwyd yn Rheoliadau 2005. Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau 2005 yn gwahardd trosglwyddo cwota a ddefnyddiwyd; bydd y diwygiad yn gwahardd trosglwyddo cwota nas defnyddiwyd sy'n angenrheidiol ar gyfer llaeth a gafodd ei farchnata cyn y dyddiad trosglwyddo. Mae diwygiadau eraill yn gysylltiedig ag anfon ffurflenni blynyddol i'r Cynulliad ac maent yn adfer y gosb ar brynwyr sy'n methu â chyflwyno ffurflenni cywir.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn o dan Reol Sefydlog 11.7

Mae anghysondeb rhwng testun Cymraeg a Saesneg rheoliad 7(b) sy'n mewnosod rheoliad newydd 36 (2A) yn Rheoliadau 2005. Mae testun Saesneg y rheoliad newydd 36(2A)(b) yn cyfeirio at ddanfoniadau at brynwr tra bo'r testun Cymraeg yn cyfeirio at ddanfoniadau gan brynwr. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)].

Gellir cywiro'r anghysondeb hwn drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Soniwyd wrth y cyfreithiwr drafftio am fân wall y mae angen ei gywiro yn y Nodyn Esboniadol.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 28 Chwefror 2006